

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 19eg Chwefror 2019

Presennol: Cyng. Beryl Salisbury (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Sharon Wyn Parry
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

Ymddiheuriadau: Dim

2. Datganiad o ddiddordeb: - dim.

3. Cofnodion cyfarfod 15 Ionawr 2019

Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gwilym Jones.)

Cofnodion cyfarfod nos Iau 7fed Chwefror 2019

Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir (Cynnig Cyng. Dyfed Williams, eilio Cyng. Sharon Parry.)

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

1. Cae Chwarae - Roedd y gwaith ar yr offer chwarae wedi'i gwblhau ond roedd angen rhoi'r mat diogelwch oedd wedi ei osod ar waelod y sleid yn sownd. Penderfynwyd gofyn i G.L Jones Playgrounds gynnal archwiliad blynyddol.

Nodwyd nad oedd lle chwarae i blant yn Llanfihangel yn Nhowyn gan mai offer ar gyfer plant o deuluoedd milwrol yn unig a osodwyd gan y Llu Awyr. Bydd rhaid ystyried hyn os daw safle addas ar gael.

2. Hysbysfwrdd – Cadarnhawyd fod angen caniatâd cynllunio i osod hysbysfwrdd wrth yr eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn ac wrth y neuadd bentref. Awgrymwyd y gallai talcen y tŷ cyntaf ar Stad Rhen Ysgol fod yn safle gwell na'r un wrth y neuadd i drigolion Caergeiliog. Cytunwyd y byddai'r clerwr a'r Cyng. Gwilym Jones yn edrych ar hyn.
3. Archwilydd Mewnol - Cytunwyd i benodi Mr H. Lloyd Jones i gynnal archwiliad mewnol o gyfrifon 2018/19.
4. Hen Ysgol, Caergeiliog – Cytunwyd i roi sylw i hwn mis nesaf.
5. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion – dim.

5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

5.1 Penderfyniadau cynllunio

32C196A – Fron Wen, Lon Minffordd Road, Llanfihangel yn Nhowyn

Newid arfaethedig i gais a gytunwyd yn flaenorol (32C196) - wedi ei ganiatáu.

32C104A Baron Hill, Llanfair Yn Neubwll – Apêl.

Cais llawn i godi cytiau ci (gofal dydd yn unig) - gwrthodwyd yr apêl.

5.2 Ceisiadau Cynllunio - dim

6. **Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn:**

1. Mapio Llifon – nodwyd.

7. **Materion Ariannol**

Yn y banc ar 19.2.2019 Cyfrif Cyfredol £13,328.81 Cyfrif Cadw £3,926.83

8. **Taliadau i'w gwneud**

Cyflog Ionawr)	£183.50	HMRC (TWE)	£45.90
MacVenture Playgrounds	£776.40	Un Llais Cymru	£229.00

Cytunwyd i dalu'r rhain.

9. **Cyfrifon 18/19**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a chysoniad banc am y cyfnod hyd at 31.1. 2019.

10. **Gohebiaeth Eraill: cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Arolwg Cymru gyfan - Gwasanaethau Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu
2. Cyflwyniad gan Swyddfa Archwilio Cymru
3. Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) i gyflwyno Pleidleisiau yn 16 oed |
4. Cynllun ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru 2019-20
5. Bwletin Un Llais Cymru

11. **Unrhyw fater arall:**

Dywedodd Cyng. Sharon Parry fod y rheiliau haearn o flaen y lloches bws wrth yr Eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn wedi plygu.

Cafwyd cwyn nad oedd y lloches bws wrth Stad Tre Ifan yn rhoi digon o gysgod i ddefnyddwyr. Roedd Cyn. Gwilym O.Jones a'r clerch am edrych ar hyn.

12. **Cyfarfod Nesaf – 19 Mawrth 2019.**

Llofnod.....Cadeirydd.....